**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 2 Hydref, 2025**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Gwener, 3 Hydref, 2025.

**Yn bresennol:** Cynghorydd Gary Pritchard (Cadeirydd)

Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams

**Hefyd yn bresennol:** Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Jackie Lewis, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Sonia Williams.

**Ymddiheuriadau:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

(11.00 o'r gloch yb – 11.25 o'r gloch yb)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Ymateb i'r Hysbysiad Gwella Rheolaeth Adeiladu**<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br>• **I gymeradwyo ymateb y Cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Hysbysiad Gwella Rheoli Adeiladu.**<br>• **gyda chymeradwyaeth gan Gadeirydd y Cyngor, i atal hawl y Pwyllgor Sgriwtini i alw'r penderfyniad hwn i mewn. Byddai oedi'r penderfyniad er mwyn ei alw i mewn yn cael effaith negyddol ar fuddiant y Cyngor am ei fod yn ofynnol iddo ddarparu ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn 14 Hydref, 2025.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mewn ymateb i Hysbysiad Gwella Rheoli Adeiladu** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyda Chadeirydd y Cyngor** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na: Ni chaiff y penderfyniad hwn ei alw i mewn am y rhesymau a nodwyd uchod, a gyda chymeradwyaeth Cadeirydd y Cyngor.** |
| **EITEM**<br><br>RHIF YR EITEM A'R PWNC | **GYFRINACHOL**<br><br>**6. Her Gyfreithiol Posibl i'r Penderfyniad i Roi Caniatâd Cynllunio i Fferm Solar Alaw Môn (Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol)**<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **cyfarwyddo Swyddogion i herio'r caniatâd a roddwyd i'r cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cyf. DNS-3274702) gan Weinidogion Cymru dan adran 288 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (adran 288(4) ac adran 284(3)(aa) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990);**<br>• **rhoi awdurdod i ryddhau arian er mwyn cyflwyno'r her hon yn unol â'r awdurdod a roddwyd iddynt yng Nghyllideb y Cyngor 2025/2026 ac yn amodol ar fonitro parhaus a chefnogaeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151;**<br>• **gyda chymeradwyaeth gan Gadeirydd y Cyngor, i atal hawl y Pwyllgor Sgriwtini i alw'r penderfyniad hwn i mewn. Byddai oedi'r penderfyniad er mwyn ei alw i mewn yn cael effaith negyddol ar fuddiant y Cyngor am fod rhaid cyflwyno'r her gyfreithiol i'r Uchel Lys erbyn 7 Hydref, 2025 fan bellaf.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I herio'r Penderfyniad i roi Caniatâd Cynllunio i Fferm Solar Alaw Môn mewn modd cyfreithiol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyda** |

| | |
|---|---|
| | **Chadeirydd y Cyngor** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na: Ni chaiff y penderfyniad hwn ei alw i mewn am y rhesymau a nodwyd uchod, a gyda chymeradwyaeth Cadeirydd y Cyngor.** |